Canolfan breswyl yw **Gwersyll yr Urdd Llangrannog,** a sefydlwyd yn 1932, fel rhan o weledigaeth Syr Ifan ab Owen Edwards ac Urdd Gobaith Cymru. Caiff ei hystyried bellach yn un o ganolfannau preswyl addysgiadol gorau Ewrop a chroesewir dros 35,000 o blant ac oedolion yn flynyddol ar gyrsiau iaith, antur, addysg a hwyl!

Cynigir llu o weithgareddau yn ogystal â llety a gwasanaeth o'r safon uchaf! Dewch i weld beth sydd ar gael!



Gwersyll yr Urdd Llanrgannog
Llandysul, Ceredigion SA44 6AE 01239 652140 / 652141
urdd.org/llangrannog

Dewch i weld beth sydd ar gael!
Come and see what's on offer!

# Llangrannog

Gwersyll yr Urdd / Urdd Centre



**Gwersyll yr Urdd Llangrannog** is a residential Centre that was established in 1932 as part of Ifan ab Owen Edwards and Urdd Gobaith Cymru's vision. We are now regarded as one of the best residential education centres in Europe, and welcome over 35,000 children and adults each year on language, adventure, education and fun courses.

We offer a wide range of activities as well as a high standard of service and accommodation. Come and see what's on offer!



**Llety**
Mae cyfleusterau'r Gwersyll gyda'r gorau o fewn byd canolfannau preswyl gyda graddfa o 4 seren gan Croeso Cymru, a'r rhan helaeth o'r ystafelloedd cysgu yn rhai ensuite. Mae cyfleusterau gwneud te a choffi ar gael trwy gydol y dydd, lolfeydd ymlacio gyda theledu, ynghyd â defnydd o gyfrifiadur a gwasanaeth di-wifr. Mae cyfleusterau golchi a sychu dillad ar gael.

**Cegin a bwyd**
Darperir pedwar pryd y dydd – brecwast, cinio, te a swper. Gellir darparu bwydlen ar gyfer pob angen dietegol. Rydym hefyd wedi ennill gwobr Curiad Calon am ein gwaith i sicrhau bwydlenni iach. Am fwy o wybodaeth am ein bwydlenni a system alergeddau cysylltwch â'r Gwersyll.

**Iechyd a Diogelwch**
Rydym yn ymfalchïo yn ein record Iechyd a Diogelwch, a chredwn mai dyma un o'r rhesymau pam mae 85% o'n hymwelwyr yn dychwelyd i aros yn y Gwersyll. Mae strwythurau pendant mewn lle sydd yn sicrhau diogelwch plant, athrawon ac oedolion yn ystod eu harhosiad.

**Accommodation**
Llangrannog facilities are of a high standard with a Visit Wales 4 star rating. There are coffee and tea making facilities available throughout the day and evening, lounge areas with televisions, and use of computers and wireless network. Facilities to wash and dry clothes are available.

**Food**
You will receive four meals a day, breakfast, dinner, tea and supper. All dietary needs are catered for. For more information on our menus and allergy systems please feel free to contact the centre.

**Health and Safety**
We pride ourselves on our Health and Safety record, and we believe this is one of the main reasons that 85% of our visitors return to stay at the Centre. There are structures in place to safeguard children and teachers/ leaders during their stay at Llangrannog.



Canolfan Dilysu Prifysgol Plant Cymru



Centre of accreditation for Children's University of Wales

**Cyrsiau ac Addysg**
Mae'r Gwersyll yn gweithredu ar yr ethos Dysgu Trwy Weithgaredd, a chredwn yn gryf fod yr ethos yma wedi profi yn effeithiol wrth gynorthwyo â datblygiad a hunan hyder unigolyn. Yn wir nid oes gwell ystafell ddosbarth na Gwersyll Llangrannog! Mae cyrsiau 2-7 noson, a phenwythnosau yn cael eu trefnu i grwpiau o 5-350! Mae'n bosib i athrawon deilwra cyrsiau i ateb gofynion eu cynlluniau dysgu yn uniongyrchol, i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hwyl a dysgu ffurfiol!

Cynigir adnoddau addysgol amrywiol o Ganolfan Addysg a Threftadaeth i gyrsiau parod. Gellir hefyd trefnu siaradwyr gwadd a thripiau i fannau lleol o ddiddordeb.

Rydym yn manteisio yn llawn ar ein hamgylchedd a'n hanes diwylliannol i greu ystod eang o gyrsiau. Enghreifftiau: Cwrs iaith / Hanes / Daearyddiaeth / Sgiliau Allweddol / Amgylcheddol / Adeiladu Tîm / Diwylliannol / Llun a Llên / Pontio / Hamdden a Thwristiaeth... a mwy!

**Cyrsiau Undydd**
Yn ystod Medi - Ebrill gallwn gynnig cyrsiau undydd i grwpiau, lle gallwch fwynhau cymysgedd o weithgareddau'r Gwersyll a chael blas o'r awyrgylch unigryw sydd yn perthyn i'r Ganolfan.

**Cyrsiau Corfforaethol a Chynadleddau**
Mae'r Ganolfan yn cynnig lleoliad unigryw ar gyfer cyrsiau corfforaethol a chynadleddau, gyda phob adnodd perthnasol ar gael.

**Courses and Education**
The Centre has been operating on an ethos of Learning Through Activity, and we strongly believe that this ethos has proven effective by developing self confidence in individuals. It's true to say that there is no better classroom than Llangrannog Urdd Centre! We offer 2-7 night and weekend courses to groups of 5-350, organised to meet your needs as a group, to ensure the right balance of formal learning and fun!

We offer a wide range of educational resources from a Heritage Centre to ready made courses. We can also organise trips to local areas of interest.

We take full advantage of our surrounding environment and cultural history to provide a wide range of courses: Examples: Language Courses / History / Geography Key Skills / Environmental / Team Building / Cultural / Art and Literature / Bridging / Transition / Leisure and Tourism... and more!

**One Day Courses**
During September – April we can offer schools day courses, where groups can enjoy certain activities and have an insight into the special atmosphere found here.

**Cooperate Courses and Conferences**
We offer an exciting alternative for meetings of every kind, with all relevant resources available.



**Gweithgareddau**
Mae dros 16 o weithgareddau wedi eu staffio gan aelodau o staff profiadol a chymwysedig ac mae'r rhestr yn dal i dyfu! Gallwn hefyd gynnig gweithgareddau dan do pan nad yw'r tywydd yn ffafriol. Gyda'r nos bydd rhaglen o weithgareddau amrywiol i'w mwynhau, a staff ar gael i gynorthwyo.

Ar sesiynau gweithgareddau mae plant yn cael y cyfle i fagu hyder a datblygu fel unigolyn wrth gymryd cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau a rhagweld risg, boed hynny wrth gymryd cornel ar y beic modur, neu yn arwain eu tîm ar y cwrs rhaffau. Mae plant ac ieuenctid yn rhagori yn yr awyrgylch yma gyda chefnogaeth ein staff profiadol ac athrawon

**Gweithgareddau Nos**
Twmpath, Taith Gerdded, Gemau Potes, Adeiladu Tîm, Cwis, Bingo, Diogelu'r Wy, Llinell Nos, Sesiwn Canu, Noson Lawen, Disgo, Eisteddfod Dwli Dwl, Gemau Olympaidd, Dêt Dirgel, Siaradwyr Gwadd... a mwy!

**Activities**
There are over 16 activities that are staffed by our professional and qualified staff. The list continues to grow! We also provide indoor activities during adverse weather conditions. During the evenings a range of activities are on offer and we have staff available to support groups with the timetable.

During activity sessions children and young people have a chance to gain confidence and develop personally whilst using key skills and co-ordination, as they have to consider and calculate risks and decision making whether it by negotiating a corner on the quad bike or leading their team safely around the ropes course. Children and young people excel in this environment with the support of teachers and staff.

**Evening Activities**
Folk Dancing, Coastal Walk, Potted Games, Team Building, Quiz, Bingo, Egg Protector, Night Line, Singing Session, Disco, Fun Eisteddfod, Olympic Games, Blind Date, Guest Speakers... and more!

